

# Y Wennol

Straeon gan ddysgwyr a Chymry Cymraeg i bawb ddarllen

e-bost: bobwennol@ntlworld.com

Cyfrwl 1 Rhif 10

Yn rhad ac am ddim

Ionawr 2021

## Injan Malu Meclin a'r Kon Tiki

gan Rob Evans



Bore ddoe oedd hi ac roedd llawer o sŵn yn dod o'r tu allan ac nid pobl y biniau oedd yn gyfrifol. Roedd arwyddion wedi cael eu gosod tu allan i ddweud bod y ffordd ar gau ac roedd llawer o ddynion yn sefyll o gwmpas yn eu siacedi hi-viz. Cofiais mai heddiw roedden nhw'n dechrau ar y gwaith o roi wyneb newydd ar y ffordd, hen bryd hefyd. Roeddwn i'n trio fy ngorau i ganolbwyntio ond roedd hi'n anodd dros ben, roeddwn i eisiau gwybod pryd bydd y dynion tu allan yn dechrau gwneud rhywbeth. Y gwir oedd roedd y gwaith yn mynd ymlaen ym mhen arall y ffordd. Mi nes i smalio mynd am dro a dyna le oedd y peiriant



mawr yn crafu'r hen wyneb i ffwrdd ac yn ei lwytho i fewn cefn y lori yn symud yn araf deg o'i flaen. Arhosais i wyllo - fel mae'r Saeson yn dweud "I love work, I could stand and watch it all day!" Ar yr ail ddiwrnod roedden nhw'n gosod y Tarmac newydd ac es i i dynnu lluniau. Roedd gymaint yn mynd ymlaen ac ar gyflymder hefyd. Roedd peiriant mawr yn gosod haen o Tarmac tra roedd lori fawr yn tywallt Tarmac i'r bwced mawr

ar ei flaen. Wrth i hyn oll fynd ymlaen roedd pedwar o ddynion efo crib a rhaw yn tacluso'r ochrau. Tu ôl iddyn nhw roedd dau roler, un mawr ac un llai yn mynd yn ôl ac ymlaen ar gyflymder i wasgu'r Tarmac i greu wyneb llyfn. Mae'n rhaid i mi gyfaddef roedd yr holl waith yn reit slic.

Ond efo'r holl fwg, stêm a'r arogl aeth fy meddwl yn ôl i fy nyddiau ysgol yn Llanallgo. Roedd y gwersi wedi gorffen a finnau ar fy ffordd adref pan glywais sŵn uchel du ôl i mi. Troais a gweld y peiriant mawr yn symud yn araf deg tu ôl i mi, beth oedd o? Wel injan malu meclin wrth gwrs. I mi, hogyn bach mewn trowsus byr roedd yn enfawr a sefais ar ochr y ffordd i'w weld yn mynd heibio. Ond na wnaeth o fynd heibio, wnaeth o aros a dros yr holl sŵn clywais y gyrrwr yn gweiddi "Wyt ti eisio pas?" Dringais i fyny ac



By BulldozerD11 - Own work, CC BY-SA 3.0, <https://commons.wikimedia.org/w/index.php?curid=4380736>

eistedd yn y cab ac ar gyflymder tipyn bach llai na chyflymder malwen ces i'r siwrne adref o'r ysgol goraf erioed. "Ti'n hwyr yn dŵad adref Robin." Medd fy mam "Ble wyt ti wedi bod? "Ces i bas mewn injan malu meclin." Atebais. Roedd

hynny'n esbonio popeth!

Rholer metlin ydy'r enw yn y geiriadur ond i mi tydi hynny ddim yn dŵad yn ddigon agos i ddisgrifio'r peiriant yma achos injan stêm go iawn oedd o ac roedd hynny'n golygu boiler tân a dŵr. Doedd y rhai oedd yn cael eu defnyddio ar ein ffordd ni ddim yn dŵad yn agos i godi cyffro mewn bachgen ifanc mewn trowsus byr. Metlin yw'r gair go iawn wrth gwrs ac mae hynny'n cyfeirio at y Tarmac - 'metteling' yn Saesneg.

Fel y stori yn ddiweddar am lansiad y bad achub ym Moelfre mae rhai pethau yn aros yn eich cof am byth.

Ac mae stori arall yn dŵad i fy meddwl hefyd achos gyferbyn â'r lle wnaeth yr injan malu meclin aros roedd garej Mr Turner. Roedd Mr a Mrs Turner a'u mab yn byw mewn bws dau lawr wrth ochr y garej ond dydi hynny ddim yn bwysig i'r stori.

Roedd cefndryd i ni o Rochdale yn dŵad i aros efo ni pob haf ac roedden nhw'n ddyfeisgar iawn. Os oedd y tywydd yn braf roedden ni'n mynd i Draeth Bychan a chael hwyl yn padlo ac yn chwarae ar y traeth. Ond roedd yr Hollinsheads eisio mwy na hynny a dyna sut wnaethon ni benderfynu adeiladu rafft. Yn yr hen adeiladau tu allan i'r tŷ roedd dwy astell - dechreuad perffaith. Wrth ddefnyddio hoelion wnaethon ni ffurfio croes a'r pethau nesaf roedd rhaid i ni gael oedd pedwar drwm olew a dyna sut roedd Mr Turner yn ffittio i mewn i'r cynllun. A oedd ganddo bedwar drwm i ni gael? Oedd siŵr iawn a dyna ni wedyn yn cario nhw yn ôl i'r rheithordy a chlymu nhw i'r groes. Roedd rhaid cael enw i'r rafft a, fel mae'n digwydd, roedd hyn ychydig o flynyddoedd ar ôl mordaith y Kon Tiki. Felly'r Kon Tiki amdani ond mewn gwirionedd mi wnaethon ni ei sillafu'n anghywir fel Kon Tikki.

Sut wnaethon ni lwyddo i gael y rafft i Draeth Bychan dw i ddim yn gwybod achos roedd hwn yn rafft reit drwm ond rywsut wnaethon ni lwyddo.

Wel cawson ni lawer o hwyl ac roedd ein rafft ni yn tynnu mwy o sylw na'r holl gychod sgleiniog yn y bae. Ond mi oedd un bachgen wedi cael y wybodaeth gan ei rieni mai dim ond un 'k' oedd yn yr enw Tikki. Roedd o'n ddigon diniwed i ddod atom ni a phwyntio allan ein camgymeriad. Mae 'na ddywediad yn Saesneg 'No-one likes a smarty pants' neu eiriau tebyg. A'r canlyniad oedd na, doedd o ddim yn cael chwarae efo ni!

Ar ôl straffaglu i gael y rafft i'r traeth doedd gennym ni ddim digon o egni i'w gario nôl felly, yn ein diniweidrwydd wnaethon ni ei glymu at ryw garreg. A dyna oedd dechrau mordaith unig y Kon Tikki i Ynys Manaw! Atgofion melys!

## Diolchgarwch

gan Shelagh Fishlock



Am gyfnod brawychus,  
Ein bywyd mor boenus,  
Heb wyliau, heb flawd a heb  
bapur tŷ bach...

Mae pobl yn cwyno  
A dim yn cytuno  
Â gorchymyn Boris am gadw yn gall.

Ond mae rhaid i ni gofio  
Y rhain sy'n gofidio,  
Heb waith, neu heb dad-cu - colled o bob math.

Does dim byd yn bwysicach  
Na rhoi diolchgarwch  
Am deulu, am ffrindiau, am gadw yn iach.

Bydd amser i ddathlu  
Priodasau, penblwyddi;  
Pethau bychan ein bywydau (hyd yn oed papur  
tŷ bach!)

## I Ddysgwyr y Flwyddyn Gyntaf

*You will notice that some of the words here are different to what you have learnt because I'm from north Wales but don't worry, it isn't that different when you get used to it. This is just a framework, just read it as you have learnt it – it will be worth it because it increases your vocabulary and gets you used to the patterns in sentences.*

Chwerw – bitter  
 Un arôl y llall – one after the other  
 Gwallt – hair  
 Weithiau – sometimes  
 Gwneud ..... fy hun – to make ..... myself  
 Blasus – Tasty  
 Gormod – too much  
 Rhoi pwysau ymlaen – to put on weight  
 Cyfnod Clo – the lockdown period  
 Milltir – mile – I don't do kilometres!  
 Anfon – to send

## Hoffi



Beth dach chi'n hoffi?

Dw i'n hoffi coffi ond dim ond un fath o goffi.

Pa fath? Wel espresso wrth gwrs! Mae espresso yn deffro fi yn y bore. Mae'n gryf ac yn chwerw. Dw i'n cael yr espresso mewn cwpan bach. Weithiau dw i'n cael dwy, un ar ôl y llall. Os dw i'n cael mwy na hynny mae fy ngwallt yn sticio fyny!

Dach chi'n hoffi hufen iâ?

Dw i'n hoffi hufen iâ ac weithiau dw i'n gwneud fy hufen iâ fy hun. Mae'n hawdd gwneud ac mae'n flasus dros ben. Rhy flasus! Ond dw i'n bwyta gormod ac wedyn dw i'n rhoi pwysau ymlaen. Dyna pam dw i ddim yn wneud o rwan!

Dach chi'n hoffi cerdded?

Dw i'n hoffi cerdded a seiclo hefyd. Pan dw i'n cerdded mae mwy o amser i fwynhau pethau. Ers y Cyfnod Clo dw i'n cerdded pob dydd, tua 6 milltir pob dydd. Os dw i'n cerdded 6 milltir mae'n iawn i mi gael hufen iâ – ond dim ond un!

Beth dach chi'n hoffi?

Dach chi'n hoffi dysgu Cymraeg?

Dach chi'n hoffi bwyd o'r Eidal?

Dach chi'n hoffi darllen?

Dach chi'n hoffi ysgrifennu? Ysgrifennwch am beth dach chi'n hoffi ac anfonwch o ataf fi.

## Geirfa

Fath – sort  
 Wrth gwrs – of course  
 Deffro – to wake  
 Cryf – strong

Rwan – the same as nawr in South Wales – somebody has got it back to front – in north Wales we say it is the people from the South that have got it wrong. In South Wales they claim it is us. But who cares, they are both Welsh words and it gives us an opportunity to pull each other's legs. Ouch!

You will notice that rwan has a little roof to keep the rain and snow off – we need that in north Wales!

### **Newydd!**

There is a sound file for this story – go to [www.gydangilydd.cymru](http://www.gydangilydd.cymru) and click on the link, download it to your phone and listen to it as many times as you like. Hope it helps!

Also, you will find all the previous issues of Y Wennol on the same page



## I Ddysgwyr yr Ail Flwyddyn

### **Dewch am dro!**

Y bore 'ma roedd y car wedi rhewi, wedi rhewi'n gorn! Dyna oedd y newyddion drwg - mae hi'n fore oer. Ond y newyddion da yw mi fydd llawer o awyr las a haul i fwynhau. Ond dw i eisiau ysgrifennu hefyd, rhywbeth i chi ddarllen. Dw i eisiau mynd i Rosili, dach chi eisiau dod efo fi?

Mae'n rhaid i mi gael brecwast yn gyntaf. Rhowch hanner awr i mi.

Reit, os dach chi'n eistedd yn gyfforddus ffwrdd â ni.

A dyma ni wedi cyrraedd Rhosili, dach chi'n gwisgo dillad cynnes a dim ond eich wyneb sydd yn oer. Dyn ni'n aros i edrych ar y traeth, i

edmygu'r traeth. Maen nhw'n dweud mai dyma yw un o'r traethau gorau yn y byd, dw i'n cytuno.



Bae Rhosili

Mae'r llwybr i lawr i'r traeth yn serth ac efallai yn llithrig felly dyn ni'n mynd i weld Pen Pyrod - dyna yw'r gair Cymraeg am Worms Head.



Ar y Ffordd

Dyn ni'n cerdded ar y trac rŵan tuag at Ben Pyrod ac yn edrych ar Fae Caerfyrddin. Yn y pellter dach chi'n gweld Pentywyn, Amroth, Saundersfoot a Dinbych y Pysgod. Mae Dinbych y Pysgod tua 18 milltir i ffwrdd fel mae'r frân yn hedfan. Llawer rhy bell i nofio!

Dyn ni wedi cyrraedd y cawsai (causeway) ond mae'r llanw i mewn felly allwn ni ddim croesi heddiw ond beth am eistedd i lawr ac edmygu'r olygfa.

A dyna chi, dewch yn ôl at y car rŵan, gobeithio bod chi wedi mwynhau eich diwrnod allan. Roedden ni'n lwcus iawn i gael diwrnod braf. Cyfle da i ddysgu geiriau newydd.

**Newydd!** Mae ffeil sain o'r stori yma ar gael ar [www.gydangilydd.cymru](http://www.gydangilydd.cymru) cliciwch ar 'Y Wennol'. Allech chi lawr lwytho'r ffeil i'ch ffôn a gwranddo

arni faint bynnag y mynnwch. Gobeithio bydd yn help i chi!



Pen Pyrod

## Geirfa

Dewch am dro – come for a walk  
 Rhewi – to freeze  
 Wedi rhewi'n gorn – frozen solid  
 Newyddion drwg – bad news  
 Rhowch haner awr i mi – give me half an hour  
 Cyfforddus – comfortable  
 Ffwrdd â ni – off we go  
 A dyma ni – here we are  
 Edmygu – to admire  
 Cytuno – to agree  
 Serth – steep  
 Efallai – perhaps  
 Llithrig – slippery  
 Tuag at – towards  
 Pellter – distance  
 Pentywyn – Pendine  
 Brân – crow  
 Hedfan – to fly  
 Llanw – the tide  
 Tua – about  
 Golygfa – view  
 Dewch yn ôl come back  
 Cyfle – opportunity

## Y Tro Cyntaf

gan Martin Jones

Yn rhifyn mis Tachwedd, ysgrifennodd Rob am wneud rhywbeth am y tro cyntaf. Wel, mae fy ngwraig a fi wastad wedi mwynhau nofio, yn y môr ac mewn pwll nofio fel ei gilydd. O ran nofio yn y



môr, rydyn ni'n ceisio parhau ar ôl yr haf cyhyd ag y gallwn ni, ond fel arfer erbyn diwedd mis Hydref mae ein hymdrechion i gadw i fynd wedi dod i ben.

Tair blynedd yn ôl, ym mis Tachwedd, roedden ni wedi penderfynu mynd am dro ar hyd y llwybr arfordir o fae Mewslade i Rosili, a chan roedd y tywydd mor braf awgrymodd fy ngwraig y dylen ni fynd â'n wisgoedd nofio. Pam lai, roeddwn i'n meddwl - ond, a dweud y gwir, doeddwn i ddim yn credu y byddwn ni mewn gwirionedd yn mynd i mewn i'r môr.

Wel fel rydw i wedi dweud, roedd e'n ddiwrnod hyfryd, ac erbyn i ni gyrraedd Fall Bay, roedden ni'n teimlo'n gynnes iawn. Roedd y bae'n edrych mor atyniadol - doedd dim awel, roedd yr haul yn disgleirio, ac roedd y môr yn pefrio. Felly, er mawr syndod i fi, bant â ni i mewn i'r môr - ac, a bod yn onest, yn syth allan! Ond roedden ni wedi llwyddo i'w wneud e, ac wrth i ni eistedd ar y traeth yn yfed paned o de er mwyn cynhesu ein hunain, dechreuon ni feddwl am y digwyddiadau nofio dros y Nadolig.



Ar ôl siarad ag ambell berson, gwnaethon ni ddarganfod, heb yn wybod i ni, bod achubwyr bywyd Langland wedi trefnu trochfa am un ar ddeg o'r gloch bob bore gŵyl San Steffan ers blynnyddoedd. Felly, dim esgus – amhosib peidio â mynychu digwyddiad ar garreg ein drws.

Wrth lwc roedd y tywydd fore gŵyl San Steffan yn iawn. Tipyn yn wyntog, ond yn sych a dim yn rhy

oer, Felly, bant â ni i Fae Langland. Doedden ni ddim yn gwybod beth i'w disgwyl, a prin gallwn ni gredu pa mor brysur oedd Langland - yn brysurach na allwn i gofio ei weld erioed, hyd yn oed yn yr haf! Roedd awyrgylch gwych ac roedd torf fawr o bobl ar y promenâd fel y cawson ni gryn drafferth i gerdded o'r maes parcio i adeilad yr achubwyr bywyd!

Erbyn i'r amser nofio (efallai dylwn i ddweud ymdrochi yn hytrach na nofio) gyrraedd, roedd tua chant o nofwyr (neu drochwyr) ar y traeth. Roedden ni wedi gwisgo ein gwisgoedd nofio cyn gadael y tŷ, felly roedd dim ond rhaid i ni dynnu ein siacedi ac yn y blaen – a dyna ni'n barod.

Fel arfer, pan mae'r môr yn oer, yn araf iawn rydw i'n mynd i mewn. Ond nid y diwrnod hwn – am un ar ddeg o'r gloch ar ei ben chwythodd rhywun chwiban, a heb betruso a heb feddwl, rhedodd pawb (gan gynnwys finnau) yn syth i mewn i'r môr. Ni allwn i gredu pa mor hawdd oedd hi, ond mae'n rhaid i fi gyfaddef i fi ddod allan bron yn syth!

Ac ar ôl trochfa mewn dŵr oer, beth sy'n well na diod boeth - felly draw i Surfside yn Rotherstade i brynu coffi i fi a siocled poeth i fy ngwraig.

Ac nid hyn oedd yr unig dro i ni wneud y drochfa. Erbyn hyn, mae wedi dod yn dipyn o draddodiad teuluol newydd, ac yn 2019 cymerodd pedwar ohonon ni ran yn y digwyddiad yn Langland. Yn anffodus, mae'n ymddangos na fydd trochfeydd swyddogol yn 2020, ond efallai byddwn ni'n cynnal ein trochfa ein hunain, gan gadw pellter cymdeithasol wrth gwrs.

*Chwarae teg i Martin a'i wraig am fod mor ddewr. Rûan te! Faint o chi'r darllenwyr sydd wedi gwneud y fath beth. Dwyllo i fyny!*

## Geiriau Gwell

gan Dic Shonnelly

Absolutely amaazing! Pa mor aml y byddech chi'n clywed y geiriau yna? Yn y Saesneg mae bron popeth gwych yn gorfod cael ei ddisgrifio fel 'na. Gall popeth ddim bod yn 'absolutely amaazing'. Pa bryd bydden ni'n rhedeg allan o brofiadau eithriadol o dda? Yn fy nyddiau cynnar roedden ni'n fodlon efo 'nice' - doedd hyd yn oed cael Wagon Wheel ddim yn cael ei ystyried yn uwch na 'nice'. Ond dyna ni mae pobl ifanc y dyddiau yma yn cael eu sbwylio siŵr o fod.

Er y rant dydw i ddim yn poeni llawer am sut mae pobl yn siarad yr iaith Saesneg ond trueni bod y geiriau yna wedi cael eu ffordd i'r iaith Gymraeg hefyd. Gwych bod pobl yn hapus i siarad ein hiaith ac efallai nid ydyn nhw'n gwybod sut i ddweud 'absolutely amaazing' yn Gymraeg. Wel beth am ddweud 'hollol wych' neu 'hollol ryfeddol' ac os mae rhywun yn anelu yn uwch na hynny, hyd yn oed, allech chi ddweud 'wir yn hollol wych' neu 'wir yn hollol ryfeddol'.

Dw i'n edrych ymlaen i glywed y Saeson yn dweud "I went to a party last night and it was wir yn hollol ryfeddol". Iawn, dw i'n gwybod mod i'n gofyn gormod!

## Addunedau y Flwyddyn Newydd

gan Susan Gilson



Mae mis Ionawr yn dod ag addunedau newydd; efallai i fwyta llai, yn enwedig siocled, neu fynd i nofio bob wythnos. Y gobaith yw y bydd yr arferion hyn yn parhau.

Cofiais, wrth dyfu lan, yr arferion a fabwysiadodd fy mam, fel agor y ffenestri bob bore, golchi a smwddio ar ddydd Llun, siopa ar ddydd Gwener a phrynu burum ffres o'r pobydd oherwydd roedd pob Dydd Sadwrn yn ddiwrnod pobi: bara, byns

cyrens, tarten. Rwy'n cofio fy nhasg i wrth eistedd ar gadair gegin a ffedog fawr yn gorchuddio fy nglin oedd curo menyn a siwgr gyda fforc yn y bowlen. Roedd raid i'r gymysgedd fod yn ysgafn ac yn hufennog. Roedd hwn yn waith caled ac weithiau roeddwn i'n gallu gweld pothell yn datblygu ar fy llaw!

Un diwrnod daeth fy nhad adref gyda chymysgwr Kenwood, newydd ddod ar y farchnad, gan feddwl y byddai'r peiriant yn wneud bywyd fy mam yn haws. Cymerodd hi un olwg arni a chyfarwyddodd fy nhad i fynd ag ef yn ôl i'r siop ar unwaith gan ddweud ei bod yn eithaf hapus yn defnyddio ei offer cegin ei hun, syml a chymhleth. Mae hen arferion yn diflannu'n gyflym dywedodd, yn anffodus doedd gen i ddim llais yn y mater.

Rwy'n cofio ficer o Loegr yn gofyn imi pam roedd menywod Cymreig yn arfer sgrwbio eu stepen drws blaen blynnyddoedd yn ôl. Fy ateb oedd 'balchder.' Roedd glendid a thaclusrwydd yn bwysig iawn. Ydych chi'n cofio beth ddywedodd Mrs Ogmores-Pritchard yn 'Dan y Wennallt,' "A chyn i chi adael i'r haul mewn, gwnewch yn siŵr bod o'n cofio sychu ei esgidiau!"

Dw i'n cofio fy merch yn dod adref o'r ysgol un diwrnod a dweud bod ei athrawes Cymraeg wedi bod yn siarad am arferion Cymru a bod gwraig tŷ yn arfer brwsio'r palmant o flaen ei thŷ, rhywbeth sydd ddim yn digwydd y dyddiau hyn. Rhoddodd Rhian ei llaw i fyny "Miss, mae fy mam yn dal i wneud hynny." 'Da dawn Rhian ddywedodd ei athrawes "Dw i yn falch iawn o glywed hynny." Dw i'n meddwl mai Rhian oedd ei hoff ddisgybl ar ôl hynny. Sylweddolais fod lawer o arferion yn cael eu hetifeddu.

Aeth fy Mam-gu pan oedd hi bron yn naw deg oed, ar long i Seland Newydd i ymweld â fy chwaer a oedd newydd briodi dyn o'r wlad. Arhosodd hi am flwyddyn!

Un diwrnod pan ddaeth fy chwaer adref roedd Mam-gu mor falch o ddweud wrthi fod hi wedi tacluso drôr yn y gegin ac wedi darganfod sosban. Roedd Mam-gu wedi treulio oriau a llawer o eli penelin i'w gael yn lân ac yn ddisglair. Cafodd fy chwaer sioc pan welodd y sosban, roedd yn wir yn ddisglair ac yn edrych fel sosban newydd. Y broblem oedd bod y sosban yn 'non stick.' Roedd Mam-gu wedi tynnu'r haen 'non stick' i ffwrdd yn llwyr! Diolch byth roedd llawer o chwerthin!.

Ar ddechrau blwyddyn newydd byddwch yn ofalus nad yw eich addunedau yn mynd yn obsesiwn. Byddwch yn gymedrol â phopeth gan gynnwys mwynhau siocled!

Blwyddyn newydd dda!

Susan Gilson

*Mae'r stori yma'n fy atgoffa o rywbeth tebyg a wnaeth ddigwydd blynyddoedd yn ôl.*


*Roedd fy Nain bron yn ddall ac roedd hi'n aros efo ni am gyfnod, Mam a Dad wedi mynd allan ac wrth ddychwelid clywed oglau polish. Mam yn dweud wrth Dad "Mmm Glyn, mae Mam wedi bod yn brysur, tybed beth mae hi wedi gwneud?" Mynd i'r ystafell bwyta wedyn a gweld bod Nain wedi bod yn brysur yn rhoi polish ar y burdd. Yn anffodus roedd hi wedi defnyddio Cardinal Red! Yn aml iawn wedyn roedd y burdd yn atgoffa ni o Nain! Neis.*

## Fan Hyn a Fan 'Co'

gan Anne Gwynne

Dw i'n cofio sut oedd hi cyn dyfodiad Covid, yr amser yna pan oedd dydd Sadwrn yn ddiwrnod Cymdeithas Edward Llwyd. Cael mynd i rywle gwahanol bob wythnos a dysgu hanes yr ardal, edmygu a dysgu enwau planhigion, anifeiliaid ac adar, hyn i gyd efo ffrindiau a thrwy gyfrwng y Gymraeg. Dw i'n ysu am y dyddiau yna. Mi ddaw'r dyddiau eto wrth gwrs ac yn raddol mi

fydden ni'n anghofio'r anhawster presennol, wir i chi mi ddaw!



Sut ydych yn treulio'ch amser bellach? Mae digon i'w wneud dw i'n siŵr ond efallai, pan dach chi eisiau hoe fach dawel ydych chi'n syllu ar eich silff llyfrau yn llawn gobaith o ddod ar draws llyfr dach chi heb ei ddarllen eto? Ond does dim un, yn y misoedd diwethaf dach chi wedi cael digon o amser i ddarllen pob un wan jac. Beth i'w wneud?

Wel gan fod chi'n gofyn! A gaf i awgrymu llyfr a fydd yn mynd â chi'r holl ffordd yn ôl i gefn gwlad Cymru. Ychydig o ddyddiau yn ôl ces i becyn yn y post, pecyn oedd yn cynnwys Llyfr Anne Gwynne - 'Fan Hyn a Fan 'Co'. Erbyn hyn allaf i lenwi pob munud sbâr ac, ar yr un pryd symud yn ôl mewn amser i'r dyddiau dw i'n colli.

Roedd Anne yn cyfrannu adroddiadau o deithiau Cymdeithas Edward Llwyd i'r Ddolen a'r Barcud, papurau bro ardal Tregaron lle mae hi'n byw. Mae 39 o adroddiadau yn gyfan gwbl, yn cynrychioli 13 o flynyddoedd ac maen nhw'n bleser pur i ddarllen. Yn anffodus dim ond ers mis Hydref 2017 dw i wedi bod yn aelod felly dw i ddim ond wedi bod ar un o'r teithiau. Peidiwch â chamddeall, dw i'n mwynhau pob adroddiad ond dw i'n tueddu cicio fy hun nad oeddwn wedi ymuno yn gynt. Mae cleisiau yn dechrau ffurfio!

Mae llawer o bethau'n dod drwodd wrth ddarllen – y trysor o wybodaeth sydd ym mhennau'r arweinyddion a'u parodrwydd i rannu hynny efo'r aelodau; y pleser sydd i gael wrth fod allan yn yr awyr iach, hyd yn oed pan mae hi'n glawio neu yn niwlog; y cyfeillgarwch sydd i fwynhau a chael diwrnod o siarad Cymraeg.

Hyn oll wedi cael ei ysgrifennu mewn Cymraeg graenus a chlr.

Mi fyddech yn mwynhau'r llyfr yma hyd yn oed os, fel fi, doeddech chi ddim ar y teithiau. I chi a oedd yn ddigon ffodus mi fydd atgofion melys o ffrindiau hen a phresennol yn llifo'n ôl. Wir i chi!

Os nad ydych yn aelod bydd y llyfr yn dangos pa mor gyfeillgar a pha mor ddefnyddiol yw'r Gymdeithas er mwyn gwella eich Cymraeg.

Ond, wrth gwrs bydd rhaid prynu'r llyfr yn gyntaf ac mae ar gael oddi wrth Anne am £10 yn cynnwys cludiant.

Mrs Anne Gwynne, Cefnbanadl, Tregaron, Ceredigion. SY25 6LU

Mi fydd yr elw yn cael ei rannu rhwng Cymdeithas Edward Llwyd, Ambiwllans Awyr Cymru a Ward Cemotherapi Ysbyty Bronglais, Aberystwyth.

### **Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd!**

Gobeithio bydd 2021 yn well na 2020 ac y bydden ni'n yn reit fuan yn gallu crwydro cefn gwlad Cymru heb orfod poeni yn ormodol. Gobeithio am normalrwydd!

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at Y Wennol a sierhau bod erthyglau difyr i chi ddarllen pob mis. Diolch i chi'r darllenwyr a chi sydd wedi danfon negeseuon cefnogol.

## **Geirfa**

### **Injan Malu Metlin**

- Cyfrifol – responsible
- Sefyll o gwmpas – standing around
- Canolbwyntio – to concentrate
- Smalio – pretend
- Peiriant – machine
- Crafu – to scrape
- Ar gyflymder – at speed
- Haen – layer
- Tywallt – to pour
- Ar ei flaen – on its front
- Gwasgu - to press, to squeeze
- Crib a rhaw – rake and shovel
- Tacluso'r ochrau – tidying the edges
- Creu – to create
- Wyneb llyfn – smooth (sur)face
- Arogl - smell
- Injan malu metlin – steamroller
- Hogyn – boy (gog)
- Pas – a lift
- Cyflymder – Speed
- Malwen – snail
- Esbonio – to explain
- Cyffro – excitement
- Lansiad – launch
- Cyferbyn â – opposite
- Cefndryd – Cousins
- Dyfeisgar – inventive
- Astell – plank
- Drwm olew – oil drum
- Fel mae'n digwydd – as it happens
- Mordaith – sea journey
- Mewn gwirionedd – in truth, actually
- Sgleiniog – shiny
- Diniwed – naive, innocent
- Straffaglu – to struggle
- Ynys Manaw – the Isle of Man
- Atgofion melys – sweet memories

### **Diolchgarwch**

- Cyfnod brawychus – frightful time
- Gorchymyn – command
- Cadw yn gall – to stay sensible
- Gofidio – to worry
- Diolchgarwch – thanksgiving



## **Y Tro Cyntaf**

Fel ei gilydd – all the same  
O ran – as far (as something is concerned)  
Parhau – to continue  
Cyhyd – as long as (we could)  
Ymdrechion – attempts  
Gwisgoedd nofio – swimming costumes  
Pam lai ? – why not?  
Atyniadol – inviting  
Pefrio – to sparkle  
Digwyddiadau nofio – swimming events  
Achubwyr bywyd – lifeguards  
Trochfa – dip  
Gŵyl San Steffan – Boxing Day  
Ar garreg ein drws – on our doorstep  
Torf – crowd  
Ar ei ben – on the dot  
Chwiban – whistle  
Petruso – to hesitate  
Trochfeydd swyddogol – official dips

## **Geiriau gwell**

Gwych – brilliant  
Hollol – totally  
Rhyfeddol – wonderful

## **Addunedau**

Addunedau newydd – new resolutions  
Arferion – habits  
Smwddio – to iron  
Borum ffres – fresh yeast  
Ffedog – apron  
Gorchuddio – to cover  
Glin – lap  
Cymysgedd – mixture  
Hufennog – creamy  
Pothell – blister  
Cyfarwyddo – to order  
Balchder – pride  
Glendid – cleanliness  
Taclusrwydd – tidyness  
Dan y Wennallt – Under Milk Wood  
Sylweddoli – to realise  
Etifeddu – to inherit  
Eli penelin – elbow grease  
Cymedrol – moderate

## **Fan Hyn a Fan 'Co**

Dyfodiad – arrival  
Edmygu – to admire  
Trwy gyfrwng – through the medium of  
Ysu – to long for  
Yn raddol – gradually  
Anhawster – difficulty  
Hoe – a rest  
Syllu – to stare  
Llawn gobaith – full of hope  
Pob un wan jac – every single one  
Graenus – polished  
Cludiant – postage, carriage